# Cofrestr Tai Comin Caerffili
# Ffurflen Polisi Gosod Tai Lleol

| | | |
|---|---|---|
| **Manylion yr ardal dan sylw:** | Rhif: | 42, 44, 46, 48, 30 a 32 Coedlan y Ffawydden |
| | Ffordd/Ffyrdd: | |
| | Tref: | Aberbargod |
| | Cod Post: | |
| | | |
| **Manylion yr eiddo dan sylw:** | Nifer: | 4 x eiddo ag 1 ystafell wely<br>1 x eiddo â 3 ystafell wely<br>1 x eiddo â 2 ystafell wely |
| | Ystafelloedd gwely: | |
| | Math/Mathau: | Mae'r fflatiau llawr gwaelod wedi'u dosbarthu fel BS<br>Mae'r fflatiau llawr cyntaf wedi'u dosbarthu fel D<br>Mae'r tai wedi'u dosbarthu fel B1 |
| | Landlord / Landlordiaid: | Cartrefi Caerffili |

| | |
|---|---|
| **Rheswm dros wneud cais am bolisi gosod tai lleol:** | Mae Coedlan y Ffawydden yn rhan o gam 1 o ddatblygiad deiliadaeth gymysg newydd wedi'i adeiladu gan Llanmoor Homes yng Nghae Bedwellte, Aberbargod. Mae'r datblygiad yn cynnwys 101 o dai, gyda 55 yn cael eu darparu yn ystod cam 1. Hoffem ni ofyn am Bolisi Gosod Tai Lleol ar gyfer 6 gosodiad newydd ar y datblygiad hwn a fydd yn ein galluogi ni i greu cymuned gytbwys a chynaliadwy, felly, rydyn ni'n cynnig ystyried cymysgedd o ymgeiswyr ag anghenion a blaenoriaethau amrywiol.<br><br>Gallai dyrannu ar sail yr angen yn unig arwain at grynhoad uchel o bobl ag anghenion cymorth, a allai effeithio ar gydbwysedd yr ystâd.<br>Datblygiad newydd cyntaf gan Gartrefi Caerffili mewn rhai blynyddoedd yw'r eiddo hwn ac mae disgwyl y bydd canolbwynt proffil uchel arnyn nhw yn ystod y misoedd nesaf. |
| **Crynodeb o'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi'r polisi gosod tai lleol:** | Er nad yw Cartrefi Caerffili wedi datblygu eiddo newydd yn ddiweddar, mae tystiolaeth gan landlordiaid cymdeithasol eraill Cofrestr Dai Caerffili o broblemau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn datblygiadau newydd os nad yw dyraniadau yn cael eu rheoli'n sensitif.<br>Roedd Pobl Group wedi adrodd yn flaenorol am ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ystâd newydd yn Oakdale, cyn cyflwyno Polisi Gosod Tai Lleol. |

| | |
|---|---|
| | Mae Cymdeithas Tai Unedig Cymru hefyd wedi adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion eraill sy'n gysylltiedig â dyrannu cyfres o denantiaethau newydd heb reoli perthnasoedd a datblygu cymunedau yn ofalus. |
| **Amcan y polisi gosod tai lleol:** | Er mwyn sicrhau bod Cartrefi Caerffili yn gallu cyfrannu at gymuned gytbwys trwy sicrhau bod gan gwsmeriaid newydd amrywiaeth o brofiadau a gofynion, eu bod yn ymgysylltu ac yn ymatebol i'w rhwymedigaethau a'u cyfrifoldebau |
| **Cyfyngiadau wrth osod tai:** | Mae Cartrefi Caerffili yn cynnig bod uchafswm o un aelwyd gydag anghenion sy'n heriol i weithwyr proffesiynol neu sydd â lefelau cymorth uchel yn cael ei letya yn y datblygiad, sy'n hafal i un aelwyd yn y bloc.<br><br>Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol a rhoddir ystyriaeth briodol iddo a bydd yn cynnwys adolygu a oes gwybodaeth am ymgeiswyr sy'n nodi:<br><br>• Ymddygiad gwrthgymdeithasol blaenorol neu gyfredol sydd wedi arwain at golli llety.<br><br>• Ymddygiad gwrthgymdeithasol blaenorol sydd wedi arwain at gamau gorfodi (hysbysiad ceisio meddiant (NSP)/gwaharddeb/meddiant/Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO)/Gorchymyn Cau)<br><br>• Cyflyrau iechyd meddwl sylweddol sy'n effeithio ar allu'r cartref i reoli tenantiaeth (lle nad yw meddyginiaeth naill ai'n cael ei chymryd neu ddim yn profi'n effeithiol).<br><br>• Euog o ymddygiad troseddol sy'n uniongyrchol berthnasol i gynnal tenantiaeth a/neu fyw gyda pharch mewn cymuned ag eraill<br><br>• Achosion sylweddol o gamddefnyddio sylweddau<br><br>**<u>Achosion sylweddol o gamddefnyddio sylweddau:</u>**<br><br>**Peth eglurder ynghylch dehongli termau:** |

| | |
|---|---|
| | Gall achosion sylweddol o gamddefnyddio sylweddau gynnwys nam neu drallod o bwys, fel yr amlygir gan un (neu ragor) o'r canlynol, sy'n digwydd o fewn cyfnod o 12 mis:<br><br>• Defnydd rheolaidd o sylweddau sy'n arwain at fethu â chyflawni rhwymedigaethau allweddol yn y gwaith, yr ysgol neu'r cartref (e.e. absenoldebau rheolaidd neu berfformiad gwaith gwael sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau; absenoldebau, ataliadau neu ddiarddeliadau o'r ysgol yn gysylltiedig â sylweddau; esgeuluso plant neu'r aelwyd);<br><br>• Defnydd rheolaidd o sylweddau mewn sefyllfaoedd lle mae'n beryglus yn gorfforol (e.e. gyrru cerbyd neu weithredu peiriant dan ddylanwad sylweddau);<br><br>• Problemau cyfreithiol rheolaidd sy'n gysylltiedig â sylweddau (e.e. arestiadau am ymddygiad afreolus sy'n gysylltiedig â sylweddau);<br><br>• Defnydd parhaus o sylweddau er gwaethaf problemau cymdeithasol neu ryngbersonol parhaus neu reolaidd a achosir neu a waethygir gan effeithiau'r sylwedd (e.e. dadleuon gyda phartner ynghylch canlyniadau meddwdod, cwerylon corfforol). |
| **Manylion am unrhyw ymgynghori cymunedol:** | Mae'r eiddo hwn yn rhan o ddatblygiad ehangach ar gyfer deiliadaeth gymysg a gafodd ei adeiladu gan Llanmoor Homes a ddaeth i feddiant Cartrefi Caerffili. |
| **Crynodeb o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb:** | |
| **Dyddiad gweithredu:** | **12 Tachwedd 2021** |
| **Dyddiad terfynu:** | **11 Tachwedd 2022** |
| **Amlder adolygu:** | **I'w adolygu 10 mis ar ôl y gosod cyntaf** |
| **Trefniadau monitro ac adolygu:** | Mae gweithdrefnau tenantiaeth newydd Cartrefi Caerffili yn cynnwys ymweliadau rheolaidd a chyfarfodydd gyda chwsmeriaid, yn enwedig yn ystod blwyddyn gyntaf y denantiaeth.<br>Bydd Cartrefi Caerffili yn monitro cwynion a chanmoliaeth sy'n ymwneud â'r tenantiaethau hyn ac yn cofnodi canlyniadau unrhyw broblemau neu ddigwyddiadau sy'n arddangos perfformiad y Polisi Gosod Tai Lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Swyddog sy'n gwneud y cais:** | **Enw:** | **Elizabeth Willington** |
| | **Swydd:** | **Rheolwr Tai'r Ardal** |
| | **Sefydliad:** | **Cartrefi Caerffili** |
| **Dyddiad:** | **28/10/2021** | |
| | | |
| **Penderfyniad y panel:** | **Wedi'i gymeradwyo** | |
| **Dyddiad:** | **12 Tachwedd 2021** | |
| **Manylion am y penderfyniad:** | | |

Sicrhewch fod y ffurflen wedi'i llenwi cyn ei hanfon drwy e-bost diogel i'r tîm Cofrestr Tai Cyffredin ar CofrestrTaiCyffredin@caerffili.gov.uk. Os bydd angen i chi siarad ag aelod o'r tîm, ffoniwch 01443 873521.